

Canllaw Clefyd y Llungfilwyr (Legionella) i Landlordiaid ac Asiantau

Beth yw Clefyd y Llungfilwyr?

Mae clefyd y Llungfilwyr yn haint i'r ysgyfaint a allai fod yn angheuol sy'n cael ei achosi pan fydd unigolion yn anadlu'r bacteria Legionella.

Gall y bacteria fodoli mewn unrhyw system ddŵr a wnaed gan ddyn fel tanciau dŵr, tapiau, cawodydd, unedau aerdymheru ac ati. Mae rhai amodau'n cynyddu'r risg o dwf legionella a chlefyd y Llungfilwyr.

Ffeithiau am Legionella:

- Gall Legionella dyfu mewn dŵr sydd rhwng 20°C a 45°C,
- Gall Legionella ledaenu drwy ddiferion dŵr y gellir eu hanadlu
- Mae risg uwch o Legionella yn tyfu mewn dŵr sy'n cael ei storio a/neu ei ailgylchu
- Gall croniad o rwd, slwtsh, calch a dyddodion eraill mewn systemau dŵr gefnogi twf bacteriol

Gall clefyd y Llungfilwyr achosi problemau iechyd hirdymor.

Mae symptomau cynnar clefyd y Llungfilwyr yn cynnwys poenau yn y cyhyrau, blinder, cur pen, peswch sych a thwymyn.

Clefyd y Llungfilwyr a'ch Trwydded Rhentu Doeth Cymru

Mae amodau eich trwydded yn nodi bod yn rhaid i chi gydymffurfio â'r 'Cod Ymarfer ar gyfer Landlordiaid ac Asiantau Trwyddedig' a drwyddedwyd o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014'. Yn unol â'r cod, rhaid i chi sicrhau bod yr eiddo rydych chi'n eu rhoi ar rent yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel, heb unrhyw risg annerbyniol i iechyd eich tenantiaid.

Mae hynny'n golygu'r canlynol:

- ✓ Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r perygl posibl y mae Legionella yn ei achosi, a
- ✓ Rhaid i chi sicrhau eich bod yn asesu ac yn lliniaru'r risg o ddod i gysylltiad â Legionella er mwyn sicrhau diogelwch tenantiaid.



Eich cyfrifoldebau

Rhaid rheoli Legionella yn briodol oherwydd y perygl y mae'n ei achosi. Bydd angen i chi sicrhau, o leiaf, bod asesiad risg Legionella yn cael ei gwblhau ar gyfer pob eiddo er mwyn nodi unrhyw risgiau posibl o dwf Legionella. Bydd yr asesiad risg hwn wedyn yn eich galluogi i roi mesurau ar waith i reoli neu atal y risg o Legionella yn tyfu yn y dyfodol.

Byddwch yn ymwybodol

Rhaid adolygu asesiadau risg yn rheolaidd.
Rhaid cadw cofnodion o'r mesurau rheoli rydych wedi'u rhoi ar waith.



Gall mesurau rheoli syml helpu i reoli'r risg o ddod i gysylltiad â Legionella. Mae mesurau'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- ✓ Fflysio'r system ddŵr cyn rhoi'r eiddo ar rent
- ✓ Osgoi gadael malurion i mewn i'r system
- ✓ Gosod paramedrau rheoli (e.e: gosod y tymheredd i sicrhau bod dŵr yn cael ei storio ar 60°C)
- ✓ Sicrhau bod unrhyw bibellau diangen yn cael eu tynnu
- ✓ Cyngori tenantiaid i lanhau a diheintio pennau cawod yn rheolaidd.

Byddwch yn ymwybodol

Gall y risg o dwf Legionella gynyddu pan fo'r eiddo'n wag am gyfnod o amser (er enghraifft: gosod yr eiddo i fyfyrwyr). Efallai y bydd angen mesurau rheoli ychwanegol yn yr eiddo hyn.

Rhoi Cyngor i Denantiaid

Dylid rhoi gwybod i denantiaid am unrhyw fesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith ac sydd angen eu cynnal. Gallai hyn gynnwys peidio ag addasu gosodiadau tymheredd ar y caloriffydd, glanhau pennau cawod yn rheolaidd a rhoi gwybod i chi am unrhyw broblemau gyda'r system dŵr twym.

Astudiaeth Achos

Cafodd landlord ddirwyon a chostau gwerth £404,886.90 am gyfanswm o 28 o droseddau mewn perthynas â dau eiddo oedd yn cynnwys fflatiau hunangynhwysol. Un o'r troseddau a nodwyd oedd nad oedd tanc cyflenwi dŵr twym wedi'i selio â chaead, gan amlygu'r meddianwyr i'r risg o fermin, pryfed ac organebau heintus fel bacteria Legionella.